PAPUR YMGYNGHORI AR BWERAU SAFONOL I SWYDDOGION CYMORTH CYMUNEDOL A FFRAMWAITH AR GYFER DATBLYGU PWERAU YN Y DYFODOL

Pam y mae angen safoni pwerau swyddogion cymorth cymunedol (CSOs)?

1. Cynhwysodd Papur Gwyn y Llywodraeth 'Building Communities, Beating Crime', a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2004, ymrwymiad i gyflwyno cyfres o bwerau gofynnol ar gyfer swyddogion cymorth cymunedol (CSOs).

2. O dan Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002 mae gan brif gwnstabliaid y pŵer i ddynodi swyddogion cymorth cymunedol o blith ystod o bwerau a geir yn Atodlen 4 i'r Ddeddf honno. Ar hyn o bryd, golyga hyn y gellir dynodi swyddogion cymorth cymunedol mewn gwahanol heddluoedd gan rai o'r pwerau, neu'r holl bwerau, neu ar brydiau ddim un o'r pwerau. Fodd bynnag, mae anfanteision sylweddol yn y system fel y mae.

3. Ar hyn o bryd, ni all y cyhoedd wybod pa bwerau sydd gan swyddogion cymorth cymunedol o'r naill wasanaeth heddlu i'r llall. Mae hyn yn ddryslyd ac yn gymhleth, ac mae'n gwneud i lawer o'r cyhoedd gredu nad oes gan swyddogion cymorth cymunedol unrhyw bwerau o gwbl. Hefyd, golyga nad oes gan swyddogion cymorth cymunedol mewn rhai heddluoedd ddigon o bwerau i allu chwarae rhan lawn yng ngwaith yr heddlu mewn cymdogaethau a bod eu rôl yn debyg i rôl wardeiniaid. Oherwydd hynny credwn ei bod yn gwneud synnwyr i safoni'r pwerau a bennir i swyddogion cymorth cymunedol a'n bwriad yw deddfu i bennu pwerau safonol cyn gynted ag y bo modd.

Natur pwerau safonol

4. Credwn y dylid seilio cyfres o bwerau safonol ar yr egwyddorion a ganlyn.

Gwerthfawrogem eich sylwadau ar y gyfres hon o egwyddorion.

(i) Dylai fod gan bob swyddog cymorth cymunedol bwerau gorfodi allweddol sy'n caniatáu iddo weithredu yn erbyn ymddygiad gwrthgymdeithasol, yn enwedig y pwerau i ofyn am enw a chyfeiriad;

(ii) Problem ddifrifol ledled y wlad yw alcohol a dylai pob swyddog cymorth cymunedol allu cymryd mesurau yn y cymdogaethau lle y maent yn gweithio i leihau'r niwed a achosir ganddo, felly dylid cynnwys pwerau i ddelio â cham-drin alcohol mewn cyfres o bwerau safonol.

(iii) Mae gan swyddogion cymorth cymunedol rôl hanfodol bwysig i'w chwarae o ran gwaith yr heddlu mewn cymunedau ac mae'n bwysig bod pwerau digonol ganddynt i chwarae rôl lawn fel rhan o dimau heddlu mewn cymdogaethau.

5. **Beth yw eich dealltwriaeth o rôl swyddogion cymorth cymunedol? Pa bethau a ddisgwyliwch gan swyddogion cymorth cymunedol?**

6. **A ydych yn cytuno mai rhywbeth i'w ddymuno yw rhoi rhagor o bwerau safonol i swyddogion cymorth cymunedol? Os ydych yn cytuno, byddem yn ddiolchgar pe baech yn dweud pam. Os credwch nad yw'n syniad da, byddem yn ddiolchgar pe baech yn nodi rhesymau a/neu gyfeirio at dystiolaeth o blaid eich barn.**

7. Byddem yn disgwyl i gyfres o bwerau cadarn gynnwys y rhan fwyaf o'r pwerau sydd gan swyddogion cymorth cymunedol ond **croesawn eich syniadau am y pwerau y byddai'n ddefnyddiol eu cynnwys mewn cyfres o bwerau safonol.** Ceir rhestr o bwerau cyfredol swyddogion cymorth cymunedol ynghlwm er gwybodaeth.

8. **Yn eich barn chi, pa bwerau sy'n hanfodol i bob swyddog cymorth cymunedol fel y gall gyfrannu at waith yr heddlu mewn cymdogaethau?**

Beth yw'r cam nesaf?

9. Ni ddylid meddwl am benderfynu ar gyfres o bwerau safonol mewn gwagle. Mae'n rhan o ddatblygiad parhaus pwerau swyddogion cymorth cymunedol. Wrth benderfynu ar bwerau safonol i swyddogion cymorth cymunedol rydym yn derbyn bod rhai pwerau craidd sy'n angenrheidiol i bob swyddog cymorth cymunedol fel y gall ddelio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ym mhob ardal. Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a mân droseddau eraill ac mae gan swyddogion cymorth cymunedol rôl hanfodol bwysig i'w chwarae yn hyn o beth. Bydd darparu cyfres o bwerau safonol cadarn yn sicrhau y gallant gyfrannu'n llawn i'r agenda hon ac y gallant chwarae rhan lawn yng ngwaith yr heddlu mewn cymdogaethau.

10. Y pwerau newydd a geir yn Neddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 oedd y cam cyntaf tuag at roi i swyddogion cymorth cymunedol ragor o'r pwerau y mae eu hangen arnynt er mwyn delio â'r problemau sy'n eu hwynebu o ddydd i ddydd. Credwn fod llawer o opsiynau pellach yn bod o ran ymestyn pwerau swyddogion cymorth cymunedol, er enghraifft rhoi pwerau cwnstabl heddlu i swyddogion cymorth cymunedol o dan adran 16 o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 i gymryd rhan mewn cyrchoedd triwantiaid. Yn y pen draw, er hynny, credwn mai mater i chi yw awgrymu'r pwerau ar gyfer swyddogion cymorth cymunedol a fyddai'n ddefnyddiol yn eich ardal chi. **Os credwch, ar sail eich profiad o weithredu, fod pwerau pellach a fyddai o gymorth i swyddogion cymorth cymunedol gyfrannu at waith yr heddlu'n fwy effeithiol yn eich ardal, byddem yn ddiolchgar am eich syniadau.**

11. Wrth wahodd eich syniadau, er hynny, rydym am ei gwneud yn glir ein bod yn ceisio ymestyn yr opsiynau fel y gall swyddogion cymorth cymunedol ddelio â gwahanol fathau o ymddygiad gwrthgymdeithasol, ac nid rhoi pwerau i swyddogion

cymorth cymunedol a'u galluogai i chwarae rôl debycach i rôl swyddog heddlu. Derbyniwn na ddylai fod gan swyddogion cymorth cymunedol bwerau i'w galluogi i ddelio'n weithredol ag unrhyw fath o drosedd difrifol megis trais, cyffuriau neu droseddau rhywiol. Os byddwn yn estyn pwerau swyddogion cymorth cymunedol ymhellach, byddwn yn parhau i sicrhau bod cyfyngiadau gofalus arnynt i fod yn gyson â'u rôl ac i sicrhau eu diogelwch.

12. Rydym hefyd am ystyried sawl opsiwn a fyddai'n ei gwneud yn bosibl i'r cyhoedd ddeall mwy am bwerau swyddogion cymorth cymunedol. **Croesawn yn enwedig eich barn am gyhoeddi pwerau ar wefannau heddluoedd unigol a/neu gyfuno pwerau swyddogion cymorth cymunedol mewn rhyw ffordd. A fyddai hyn yn ddefnyddiol? A oes gennych unrhyw awgrymiadau pellach?**

13. Gall Achrediad Diogelwch Cymunedol chwarae rhan ganolog hefyd yng ngwaith yr heddlu mewn cymdogaethau. **Os oes syniadau gennych am bwerau pellach a fyddai'n gwneud pobl achrededig yn eich ardal yn fwy effeithiol, byddai'n dda gennym glywed am eich syniadau hefyd.**

14. **Perthnasol i Heddluoedd yn unig: Os oes gwybodaeth gennych am gost gyfan hyfforddi eich swyddogion cymorth cymunedol a/neu gostau eu hyfforddi yn eu pwerau hoffem glywed oddi wrthych.**

PŴER	DEDDFWRIAETH BERTHNASOL
PWERAU AMGYLCHEDDOL	
Pŵer i roi hysbysiadau cosb benodedig am faeddu gan gŵn Pŵer swyddog awdurdodedig awdurdod lleol i roi hysbysiad o dan adran 4 o Ddeddf Cŵn (Baeddu Tir) 1996.	Paragraff 1(2)(c) o Atodlen 4 i Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002.
Pŵer i roi hysbysiad cosb benodedig am daflu sbwriel Pŵer swyddog awdurdodedig awdurdod sbwriel o dan adran 88 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.	Paragraff 1(2)(d) o Atodlen 4 i Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002
Pŵer i roi hysbysiad cosb benodedig am graffiti/gosod posteri heb ganiatâd Pŵer swyddog awdurdodedig awdurdod lleol i roi hysbysiad o dan adran 43(a) o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003.	Paragraff 1(2)(ca) o Atodlen 4 i Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002 (a gynhwyswyd gan adran 46 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003)
Pŵer i symud cerbydau gadawedig o dan adran 99 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984	Paragraff 10 o Atodlen 4 i Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002
PWERAU TRAFNIDIAETH	
Pŵer i roi hysbysiad cosb benodedig am feicio ar y palmant Pŵer cwnstabl mewn ffurfwisg i roi hysbysiad cosb benodedig o dan adran 54 o Ddeddf Tramgwyddwyr Traffig Ffyrdd 1988 mewn perthynas â thramgwydd o dan adran 72 o Ddeddf Priffyrdd 1835 (tramwy ar droetffordd) trwy feicio.	Paragraff 1(2)(b) o Atodlen 4 i Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002
Pŵer i atal beiciau: Pwerau cwnstabl mewn ffurfwisg i atal beic o dan adran 163(2) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988 pan fydd gan swyddog cymorth cymunedol le i gredu bod person wedi cyflawni'r tramgwydd o feicio ar lwybr troed.	Paragraff 11A o Atodlen 4 i Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002 (a gynhwyswyd gan adran 89(3) o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003)
Pŵer i atal cerbydau i'w profi, pŵer i hebrwng llwythau annormal a phŵer i wirio cerbydau	Paragraff 11 o Atodlen 4 i Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002. Paragraff 12 o Atodlen 4 i Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002 Paragraff 13 o Atodlen 4 i Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002

Pŵer i ofyn am enw a chyfeiriad yn achos tramgwyddau traffig ffyrdd: Mae Deddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 yn caniatáu dynodi pŵer i swyddogion cymorth cymunedol ofyn am enw a chyfeiriad gyrrwr neu gerddwr sy'n methu â dilyn cyfarwyddiadau swyddog cymorth cymunedol neu swyddog heddlu.	Paragraff 3A o Atodlen 4 i Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002 (a gynhwyswyd gan baragraff 6 o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005).
Pŵer i gyfarwyddo traffig ac i osod arwyddion traffig	Paragraff 11B o Atodlen 4 i Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002 (a gynhwyswyd gan baragraff 10 o Atodlen 8 i Fesur Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu a Pharagraff 13A o Atodlen 4 i Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002 (a gynhwyswyd gan baragraff 11 o Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005.)
Pŵer i ddyroddi Hysbysiad Cosb am Anrhefn am daflu tân gwyllt ac am dresmasu ar reilffordd ac am daflu cerrig ar reilffordd.	A80 o Ddeddf Ffrwydron 1875, a55 ac a56 o Ddeddf Comisiwn Trafnidiaeth Prydain 1949
Pŵer i gymryd cerbydau i feddiant os ddefnyddir hwy i achosi dychryn: Pŵer i atal cerbyd a'i gymryd i feddiant pan fo gan swyddog cymorth cymunedol le i gredu ei fod yn cael ei ddefnyddio mewn modd sy'n groes i adrannau 3 neu 34 o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988 o dan adran 59 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002.	Paragraff 9 o Atodlen 4 i Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002
PWERAU ALCOHOL A THYBACO	
Pŵer cyfyngedig i fynd i mewn i fangre drwyddedig: mae'r Mesur Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu yn caniatáu dynodi pŵer i swyddogion cymorth cymunedol fynd i mewn i fangre drwyddedig o dan adran 180 o Ddeddf Trwyddedu 2003 at ddibenion ymchwilio i dramgwyddau trwyddedu perthnasol.	Paragraff 8A o Atodlen 4 i Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002 (a gynhwyswyd gan baragraff 9 o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005). **Heb ei gychwyn eto.**
Pŵer i orfodi o ran rhai tramgwyddau trwyddedu: Mae Deddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 yn sefydlu cyfres o	Paragraff 2(6A) o Atodlen 4 i Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002 (gweler paragraffau 3(3) a 3(8) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu

dramgwyddau trwyddedu perthnasol. Y tramgwyddau hyn hyn yw gwerthu alcohol i berson meddw, cael alcohol ar ran person meddw, gwerthu alcohol i blant, prynu alcohol i blant neu ar eu rhan, yfed alcohol gan blant ac anfon plentyn i gael alcohol. Pan fo'r tramgwyddau hyn yn ymwneud yn benodol â chlybiau nid ydynt yn dramgwyddau trwyddedu perthnasol. Caiff swyddogion cymorth cymunedol ofyn am enw a chyfeiriad ond ni chânt gadw neb yn gaeth am y tramgwyddau trwyddedu perthnasol hynny sydd fwyaf tebygol o gael eu cyflawni gan ddeiliaid trwyddedau.	Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005). **Heb ei gychwyn eto.**
Pŵer i ofyn i bobl sy'n yfed mewn man penodedig ildio alcohol Pŵer i ofyn i berson y cred y swyddog cymorth cymunedol yn rhesymol ei fod wedi yfed neu yn yfed alcohol mewn man cyhoeddus penodedig neu sy'n bwriadu gwneud hynny, beidio ag yfed yr alcohol hwnnw ac ildio'r alcohol neu beth bynnag sy'n dal yr alcohol. Pŵer i gael gwared ar yr alcohol a ildiwyd.	Paragraff 5 o Atodlen 4 i Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002
Pŵer i ofyn i bobl dan 18 oed ildio alcohol: Pŵer i ofyn i berson y cred yn rhesymol ei fod dan 18 oed neu sy'n darparu alcohol i berson dan 18 oed ildio unrhyw alcohol yn ei feddiant a rhoi ei enw a'i gyfeiriad. Pŵer i ofyn i berson o'r fath ildio cynwysyddion alcohol dan sêl os oes gan y swyddog cymorth cymunedol le i gredu ei fod yn yfed neu wedi bod yn yfed neu'n bwriadu yfed alcohol. Pŵer i gael gwared ar yr alcohol a ildiwyd.	Paragraff 6 o Atodlen 4 i Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002
Pŵer i chwilio am alcohol a thybaco: Pan fo person wedi methu â chydymffurfio â gofyniad o dan baragraff 5 neu 6 neu wedi methu â chaniatáu i swyddog cymorth cymunedol gymryd tybaco i'w feddiant o dan baragraff 7 o Atodlen 4 i Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002 a phan fo	Paragraff 7A o Atodlen 4 i Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002 (a gynhwyswyd gan baragraff 8 o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005). **Heb ei gychwyn eto.**

swyddog cymorth cymunedol yn credu'n rhesymol fod y person ym meddiant alcohol neu dybaco yna caiff swyddog cymorth cymunedol ei chwilio amdano a chael gwared ar unrhyw beth y daw o hyd iddo.	
Pŵer i gymryd tybaco o feddiant person dan 16 oed a chael gwared ar y tybaco hwnnw.	Paragraff 7 o Atodlen 4 i Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002
Pŵer i gymryd meddiant o gyffuriau a gofyn am enw a chyfeiriad y sawl sydd yn eu meddiant: Mae Deddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 yn caniatáu dynodi pŵer i swyddogion cymorth cymunedol gymryd meddiant o gyffuriau sydd heb eu cuddio neu gyffuriau y deuir o hyd iddynt wrth chwilio am alcohol, tybaco neu eitemau peryglus. Rhaid i'r swyddog cymorth cymunedol gadw'r cyffuriau hyd nes i gwnstabl ei gyfarwyddo beth i'w wneud â hwy.	Paragraffau 7B a 7C o Atodlen 4 i Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002 (a gynhwyswyd gan baragraff 8 o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005). **Heb eu cychwyn eto.**
Pŵer i roi Hysbysiadau Cosb am Anrhefn am y canlynol: gwerthu alcohol i berson dan 18 oed; prynu alcohol i berson dan 18 oed; darparu alcohol i berson dan 18 oed; yfed mewn man penodedig; yfed alcohol gan berson dan 18 oed neu ganiatáu yfed o'r fath.	A169A o Ddeddf Trwyddedu 1964, a169C(2) a (3) o Ddeddf Trwyddedu 1964, a169F o Ddeddf Trwyddedu 1964, a169E o Ddeddf Trwyddedu 1964, a12 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001
Pŵer i roi Hysbysiad Cosb am Anrhefn am ymddygiad meddw ac afreolus; meddw ar briffordd	A91 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1967, a12 o Ddeddf Trwyddedu 1872
PWERAU I FYND I'R AFAEL AG YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL	
Pŵer i ofyn am enw a chyfeiriad am ymddygiad gwrthgymdeithasol: Pŵer cwnstabl mewn ffurfwisg o dan adran 50 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002 i ofyn i berson os oes lle i gredu ei fod wedi ymddwyn, neu yn ymddwyn, mewn modd gwrthgymdeithasol roi ei enw a'i gyfeiriad.	Paragraff 3 o Atodlen 4 i Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002 (Paragraff 3(10) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005).
Pŵer i ddelio â chardota: Mae Deddf	Paragraffau 2(6)(ac) a 2(3B) o

Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 yn gwneud tramgwyddau o dan adrannau 3 a 4 o Ddeddf Crwydradaeth 1824 yn dramgwyddau perthnasol. Mae'n rhoi hefyd i swyddogion cymorth cymdeithasol bŵer i gadw person yn gaeth y maent wedi gofyn iddo beidio â chyflawni tramgwydd o dan adrannau 3 a 4 o'r Ddeddf Crwydradaeth ac sydd wedi methu cydymffurfio â'r gofyniad.	Atodlen 4 i Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002 (gweler paragraffau 3(4), 3(5), 3(6) a 3(7) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005).
Pŵer i chwalu grwpiau a mynd â phersonau dan 16 oed i'w preswylfa: Pwerau a roddir, yn rhinwedd awdurdodiad o dan adran 30 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003, i gwnstabl mewn ffurfwisg gan adran 30(3) i (6) o'r ddeddf honno (chwalu grwpiau a mynd â phersonau dan 16 oed i'w preswylfa).	Paragraff 4A o Atodlen 4 i Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002 (a gynhwyswyd gan adran 33 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003)
Pŵer i roi Hysbysiad Cosb am Anrhefn am dorri cyrffyw tân gwyllt; bod ym meddiant tân gwyllt categori 4; personau dan 18 oed ym meddiant tân gwyllt oedolion; darparu tân gwyllt gorlwythog	Rheoliadau Tân Gwyllt 2004 o dan a11 o Ddeddf Tân Gwyllt 2003
PWERAU GORFODI	
Pŵer i ofyn am enw a chyfeiriad am dramgwyddau perthnasol Pŵer i ofyn am enw a chyfeiriad person pan fo gan swyddog cymorth cymunedol le i gredu iddo gyflawni tramgwydd perthnasol (Diffinnir tramgwyddau perthnasol o dan is-baragraff 2(6) o Atodlen 4 i Ddeddf Diwygio'r Heddlu).	Paragraff 1A o Atodlen 4 i Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002 (a gynhwyswyd gan baragraff 2 o Atodlen 8 to the Deddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005).
Pŵer i roi hysbysiad cosb benodedig am driwanta Pŵer cwnstabl i roi hysbysiad cosb benodedig o dan adran A444 o Ddeddf Addysg 1996.	Paragraff 1(2)(aa) o Atodlen 4 i Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002 (a gynhwyswyd gan adran 23 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003).
Pŵer i gadw person yn gaeth: Pŵer i gadw person yn gaeth pan fo gan swyddog cymorth cymunedol le i gredu iddo gyflawni tramgwydd perthnasol, pan fo'r person yn methu â chydymffurfio â'r gofyniad i roi enw a	Paragraff 2 o Atodlen 4 i Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002. (Paragraff 3(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005.)

chyfeiriad neu pan fo'n rhoi ateb y mae gan y swyddog cymorth cymunedol le rhesymol i gredu ei fod yn anwir neu'n anghywir a'i gadw'n gaeth am hyd at hanner awr neu hyd nes i swyddog heddlu gyrraedd (neu i hebrwng yr unigolyn hwnnw i swyddfa heddlu os bydd yn dewis gwneud hynny pan ofynnir iddo).	
Pŵer i orfodi is-ddeddfau: Mae Deddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 yn darparu bod tramgwyddau a gyflawnir o dan is-ddeddfau perthnasol yn dramgwyddau perthnasol o dan baragraff 2(6) o Atodlen 4 i Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002. Mae is-ddeddf berthnasol yn is-ddeddf o blith rhestr o is-ddeddfau y cytunwyd arnynt rhwng prif gwnstabl a'r corff is-ddeddfau perthnasol.	Paragraffau 1A(3), 2(3A), 2(6)(ad), 2(6B), 2(6C), 2(6D), 2(6E), 2(6F) o Atodlen 4 i Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002 (gweler paragraffau 2, 3(4), 3(7) a 3(8) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005).
Pŵer i dynnu llun personau mewn man ar wahân i swyddfa heddlu: Mae Deddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 yn caniatáu dynodi i swyddogion cymorth cymunedol y pŵer i dynnu llun person a arestiwyd, person a gedwir yn gaeth neu berson y rhoddwyd hysbysiad cosb benodedig iddo mewn man ar wahân i swyddfa heddlu.	Paragraff 15ZA o Atodlen 4 i Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002 (a gynhwyswyd gan baragraff 12 o Atodlen 8 i Deddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005). **Heb ei gychwyn eto.**
Pŵer i chwilio personau dan gadwad am eitemau peryglus neu eitemau y gellid eu defnyddio er mwyn dianc: Mae Deddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 yn caniatáu dynodi i swyddogion cymorth cymunedol yr un pwerau â sydd gan gwnstabl o dan adran 32 o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol i chwilio personau dan gadwad am unrhyw beth y gellid ei ddefnyddio i achosi niwed corfforol neu er mwyn dianc.	Paragraff 2A o Atodlen 4 i Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002 (a gynhwyswyd gan baragraff 8 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005). **Heb ei gychwyn eto.**
Pŵer i ddefnyddio grym rhesymol i atal person dan gadwad rhag mynd i ffwrdd: naill ai wrth aros i gwnstabl	Paragraff 4 o Atodlen 4 i Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002

heddlu gyrraedd neu wrth hebrwng unigolyn dan gadwad i swyddfa heddlu.	
Pŵer i ddefnyddio grym rhesymol wrth drosglwyddo rheolaeth am bersonau dan gadwad: Mae paragraff 2(4A) o Atodlen 4 i Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002 yn gosod dyletswydd ar swyddogion cymorth cymunedol i aros gyda swyddog heddlu wrth drosglwyddo person dan gadwad i'w gadwraeth hyd nes bod y person dan reolaeth y swyddog heddlu. Mae paragraff 2(4B) yn gosod dyletswydd ar swyddog cymorth cymunedol sy'n hebrwng person dan gadwad i swyddfa heddlu i aros yn y swyddfa heddlu hyd nes bod y person dan gadwad dan reolaeth.	Paragraphs 2(4A), 2(4B), 4ZA and 4ZB o Atodlen 4 i Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002 (gweler paragraffau 2, 3 a 4 o Atodlen 9 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005).
Pŵer i symud plant sy'n torri hysbsyiadau cyrffyw i'w preswylfa: Pŵer i symud plentyn i'w breswylfa os oes gan y swyddog cymorth cymunedol le i gredu bod y plentyn yn torri hysbysiad cyrffyw o dan is-adrannau 15(1), (2) a (3) o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998.	Paragraff 4B o Atodlen 4 i Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002 (a gynhwyswyd gan 33 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003)
Dinistrio neu ddifrodi eiddo; achosi aflonyddwch, dychryn neu ofid	A1(1) Deddf Difrod Troseddol 1971, a5 Deddf Trefn Gyhoeddus 1986
Pŵer i roi Hysbysiad Cosb am Anrhefn am wastraffu amser yr heddlu, rhoi adroddiad anwir, defnyddio rhwydweithiau cyfathrebu cyhoeddus er mwyn achosi niwsans; achosi dychryn ffug o fwriad i berson sy'n gweithredu ar ran awdurdod tân ac achub	A5 Deddf Cyfraith Droseddol 1967, a127 (2) Deddf Cyfathrebu 2003, a49 Deddf Tân ac Achub 2004
Pŵer i ddefnyddio grym rhesymol: Caiff swyddog cymorth cymunedol ddefnyddio grym rhesymol i arfer pŵer a ddynodwyd iddo os byddai cwnstabl yn arfer y pŵer hwnnw, byddai gan y cwnstabl hwnnw y pŵer i ddefnyddio grym rhesymol.	Adran 38(8) o Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002. Ar hyn o bryd hwn yw'r unig 'bŵer' safonol sydd gan swyddogion cymorth cymunedol. Nid yw'r pŵer hwn gan swyddog cymorth cymunedol ond pan fyddai cwnstabl yn arfer y pŵer hwnnw, y byddai ganddo'r pŵer i ddefnyddio grym rhesymol.
PWERAU DIOGELWCH	

Pŵer i fynd i mewn i unrhyw fangre a'i chwilio at ddibenion arbed bywyd neu i atal difrod i eiddo	Paragraff 8 o Atodlen 4 i Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002
Pŵer i atal a chwilio mewn mannau awdurdodedig: Pwerau dan Ddeddf Terfysgaeth 2000 mewn mannau awdurdodedig i atal a chwilio cerbydau a cherddwyr tra bo yng nghwmni cwnstabl a dan ei oruchwyliaeth.	Paragraff 15 o Atodlen 4 i Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002
Pŵer i orfodi mannau a ynyswyd: o dan adran 36 o Ddeddf Terfysgaeth 2000	Paragraff 14 o Atodlen 4 i Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002

Rhai yr Ymgynghorwyd â Nhw

- Prif Gwnstabliaid Heddluoedd (gan gynnwys Heddlu Trafnidiaeth Prydain)
- Clercod i Awdurdodau'r Heddlu
- ACPO
- APA
- Ffederasiwn yr Heddlu
- Cymdeithas Uwcharolygwyr yr Heddlu
- Comisiwn Annibynnol Cwynion yr Heddlu
- Arolygiaeth Heddlu Ei Mawrhydi
- Cymdeithas Llywodraeth Leol
- Partneriaethau Lleihau Trosedd ac Anhrefn
- Adrannau Eraill y Llywodraeth
- Llywodraeth Cynulliad Cymru
- Cyngor Staff yr Heddlu – ochr yr Undebau Llafur
- Undeb Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol
- Met TUS
- Centrex
- Skills for Justice
- Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol Trefi a Phlwyfi
- Clercod Cyfiawnder i Lysoedd Ynadon
- Cymdeithas Genedlaethol Busnesau Bychain
- Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol
- Cymdeithas y Plant
- Liberty